**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 12-02(p5)w**

**Dyddiad:** 17 Gorffennaf 2002

**Amser:**

**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Pwyllgor**

Bydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn rhoi ystyriaeth i'r papur:

**PYSGODFEYDD - CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL AR GYFER PYSGODFEYDD CYMRU A'R SECTOR BWYD FFERMIO DWR**

**Y MATER DAN SYLW**

Adroddiad ar hynt y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer y sector pysgodfeydd ffermio dwr a masnachol yng Nghymru.

**CEFNDIR**

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu sector pysgodfeydd Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r dasg i Gyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru o baratoi cynllun gweithredu i ategu hyfywedd economaidd busnesau Cymru ym meysydd pysgota masnachol, ffermio dwr, prosesu a dosbarthu pysgod. Mae menter gyfochrog yn rhoi ystyriaeth i'r pysgodfeydd mewnol a buddiannau adloniant/twristiaeth. Yr adroddiadau, yn ogystal â chanlyniadau ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar gynigion Comisiwn yr UE ar gyfer dyfodol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, a fydd yn sail i Strategaeth Pysgodfeydd Cymru Gyfan y mae disgwyl iddi fod ar gael erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf. Bydd y strategaeth gyffredinol hon hefyd yn ategu adolygiad canol tymor y flwyddyn nesaf o raglenni pysgodfeydd Amcan 1 Cymru a'r rhaglenni nad ydynt yn rhai Amcan 1.

Mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi sefydlu Grwp Strategaeth Pysgodfeydd a Ffermio Dwr sy'n cynnwys pobl o feysydd diwydiant, yr amgylchedd a masnach yng Nghymru.

**SYNOPSIS O'R CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT**

Mae'r prif faterion a nodwyd yn dangos bod Cymru yn mwynhau'r manteision ac yn dioddef yr

anfanteision arferol o fod ar yr ymylon yn ddaearyddol ac yn economaidd. Ar y naill law, mae'r amgylchedd morol sydd ar hyd y rhan fwyaf o arfordir Cymru o ansawdd cystal nes bod y safonau rheoli a stiwardio yn uwch, gan sicrhau bod cynnyrch sy'n cael ei feithrin neu'i gynhyrchu yn yr amgylchedd hwn o'r ansawdd gorau posibl. Ar y llaw arall, mae'r cynnyrch ar y cyfan yn fach ac wedi'i wasgaru hwnt ac yma ar hyd arfordir Cymru. Disgwylir i'r adroddiad dynnu sylw at bwysigrwydd marchnadoedd y DU a marchnadoedd Ewropeaidd am bysgod yn unol â'r twf yng nghyfoeth y boblogaeth a'r diddordeb cynyddol mewn bwyd môr. Mae Ewrop yn dibynnu ar fewnforion am ymhell dros hanner ei gofynion. Disgwylir i gasgliadau'r Grwp nodi amrywiaeth o gamau allweddol i gefnogi'r sector pysgodfeydd masnachol yng Nghymru sy'n gyson â chynnal ansawdd a chynaliadwyedd stoc yn y dyfodol.

**Y CAMAU NESAF**

Mae'r grwp yn disgwyl llunio ei adroddiad terfynol erbyn dechrau'r hydref. Caiff yr adroddiad ei anfon wedyn i'r diwydiant er mwyn i bobl ymgynghori arno a rhoi eu sylwadau, a bydd yn cyfrannu at strategaeth Pysgodfeydd Cymru a gaiff ei lansio ddechrau'r flwyddyn nesaf.

**Cyswllt: Glyn Perryman**

**APD2**